Cofnodion Cyngor Cymuned Pistyll
A gynhaliwyd yn y Ganolfan Llithfaen
Nos Fawrth 14eg o Fehefin am 7:30 y.h

Yn Bresennol

Cynghorwyr – William Jones (WJ), John Owen (JO), Gwilym Williams (GW), Olwen Roberts (OR), Dewi Ellis (DE), Emlyn Hughes (EH), Gwyn D Roberts (GR) a'r cyng. Aled Jones (AJ).

Ymddiheuriadau

Sianelen Plemming (SP) a Lisbeth James (LJ). Ymddieurodd AJ o flaen llaw ar gyfer cyfarfod y 12 o Orffennaf.

1. **Hysbysebiadau y Cadeirydd**

Cafwyd croeso gan y Cadeirydd Olwen Roberts.

Cydymdeimlwyd â Dafydd Roberts ar ôl iddo golli ei Dad.

Cydymdeimlwyd hefyd â William Jones gan iddo golli ei chwaer yng nghyfraith.

2. **Dangos Diddordeb**

Dim

3. **Cofnodion**

3.1 Cynigodd Gwyn D Roberts fod cofnodion y 10 o Fai yn gywir ac eiliodd Gwilym Williams.

3.2 **Golau Tynyparc -** *Clerc i gysylltu â DR*.

3.3 **Dŵr yr Eifl –***Clerc i gysylltu â DR.*

3.4 **Problem gyda golau Stryd** – Mae modd cysylltu yn uniongyrchol â Goleuo@gwynedd.llyw.cymru os cyfyd problemau yn y dyfodol. Gorau oll os y gellir dyfynu'r rhif unigryw sydd ar waelod y lamp angen sylw.

3.5 **Prydles y Ganolfan** – Penderfynwyd gohirio'r drafodaeth hyd y bydd LJ o gwmpas y bwrdd i drafod gan ei bod wedi bod yn bwrw golwg tros ddogfenau drafft y Cyngor Sir. Cyfeiriodd EG at ffrwyth ei ymchwil cefndirol ar gyfer y drafodaeth arfaethedig. *Clerc i ddarparu crynodeb o'i ganfyddiadau i Bwyllgor y Ganolfan.*

3.6 **Hysbysfwrdd ar wal y siop** – *Y Clerc i adrodd ar gynnydd yng nghyfarfod Gorffennaf.*

3.7 **Heddlu yn mynychu cyfarfodydd** – *Y Clerc i drafod gyda SP a chylchredeg rhaglen cyfarfodydd y Cyngor am 16/17 pan wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor Cymuned*.

3.8 **Cynllun Adnau** – Adroddodd y Cyng AJ y bwriedir, mewn cyfarfod a gynhelir ar y 29 o Fehefin, holi'r Aelod Cabinet perthnasol am y cynnydd o ran y darn o waith a ymrwymwyd iddo i ystryried effaith datblygiadau ers 2011 ar y Gymraeg.

3.9 **First Responder** - Dim ymateb wedi bod i'r posteri 'First Responder' hyd yn hyn.

3.10 **Archwilio/cyfrifon 14/15 a 15/16** - Adroddodd OR eu mewn llaw gan John Roberts, Cyfrifydd ac Archwiliwr, sy'n bwriadu cwblhau'r dasg o Archwilio cyfrifon 14/15 erbyn diwedd Mehefin. Symudwyd yr amserlen wreiddiol ar gyfer cyfrifon 15/16 gan na ellir eu cadarnhau hyd y bydd rhai'r flwyddyn flaenorol wedi'u cwblhau.

3.11 **Eithin ar lôn isaf, Llithfaen o Bro Dawel -** Ni all y Cyngor Sir gyfiawnhau cymryd camau gorfodol. Maent am gysylltu â pherchennog/deiliaid y tir yn anffurfiol i dynnu eu sylw at bryderon y Cyngor Cymuned gan ofyn yn garedig iddynt ystyried torri'r eithin.

3.12 **Cyflwr y B4417 i'r de o'r groes yn Llithfaen** – Mae'r ffordd wedi'i chynnwys ar y rhestr ddymunol i'w hail wynebu. Nid yw'r amserlen yn hysbys. Fe barheir i gynnal archwiliadau o'r ffordd ac ymateb i ddiffygion yn unol a'r canllawiau perthansol.

3.13 **Cyflwr y palmant ar y Groes** – Yn aros am ymateb y Cyngor Sir i ohebiaeth y Clerc.

3.14 **Y Fainc ar y Groes** – Mae'r fainc newydd yn ei lle. Derbynwyd £51.00 tuag at y gost yn y bocs casglu yn y Siop.

3.15 **Wal derfyn cerrig sych gyda'r ffordd at Nant Gwrtheyrn** – Y perchennog tir sy'n gyfrifol am gyflwr ac am gynnal y wal. Mae Peiriannydd Ardal Dwyfor am gysylltu gyda'r Gwasanaeth Trafnidiaeth a Rheolwr Gwasanaeth AHNE i'w hysbysu o bryderon y Cyngor Cymuned.

3.16 **Problemau ar ôl casglu biniau gwastraff ailgylchu -** Nodwyd fod angen tynnu sylw'r Cyngor Sir am unrhyw broblemau cyn gynted ac y bo modd.

3.17 **Cyflwr arwydd Llithfaen yng ngroeslon Tan y Fron -** Nododd Cyngor Gwynedd y trefnir yamateb i'r mater o fewn eu trefn blaenoriaeth.

3.18 **Cyflog y Clerc –** Gan fod angen i'r Cyngor weithredu'r drefn PAYE wrth dalu i'r Clerc ni gyflwynodd ei siec cyflog am mis Mai. Penderfynwyd symud ymlaen yn y modd

perthnasol pan ddaw y drefn weithredol yn hysbys. Cytunwyd y byddai costau'r Clerc yn cael eu prosesu bryd hynny hefyd.
Y Clerc i gadw cofnod o'r amser a gymer ei ddyletswyddau.
Addawodd OR holi'r cyn Glerc cyflogedig am y drefn a fabwysiadwyd gan y Cyngor.

4. **Ceisiadau Cynllunio**

Dim

5. **Gohebiaeth**

5.1 **Ymgynghoriad i orfodaeth stryd gan Bwyllgor Craffu Cymunedau Cyngor Gwynedd** – Cwblhawyd holiadur ymgynghori. *Y Clerc i'w ddychwelyd*

5.2 **Adroddiad Blynyddol i Banel Annibynnol Cymru - lwfansau a threuliau a dalwyd i gynghorwyr cymuned** – Cadarnhawyd na dderbyniodd unrhyw aelod o'r Cyngor Cymuned unrhyw lwfansau neu dreuliau am y flwyddyn 15/16. *Y Clerc i gyflwyno'r adroddiad cyn y dyddiad cau ar y 30 Medi.*

5.3 **Cyfarfod rhandalwyr allweddol o ran biniau halen (**Luned Evans – Un Llais) – Mae gan y Cyngor Sir restr o'r cwmniau lleol sy'n berchen ar y drwydded angenrheidiol i lenwi biniau halen. Lleiafswm y gost o lenwi biniau halen ydyw £30 (mae'r halen yn costio hynny). Byddai'r Cyngor Sir yn cymryd cyfrifoldeb am adnewyddu a chynnal a chadw unrhyw finiau halen sy'n cael eu difrodi pe byddent yn cael y gwaith o'u llenwi. Mae'r gost am osod bin halen newydd wedi gostwng. Llythyr i ddod i gadarnhau'r uchod.

6. **Ceisiadau Ariannol**

6.1 Yn dilyn cais ffurfiol penderfynwyd cyfranu £200.00 tuag at gostau Gwyl Ifan 2016.
Yn dilyn cais ffurfiol penderfynwyd cyfranu £300.00 tuag at gost yswiriant Pwyllgor Cae Chwarae Llithfaen am 16/17.
Y Clerc i weithredu ar y penderfyniadau hyn.

6.2 Derbynwyd llythyr o ddiolch gan Glwb Ffermwyr Ifanc Godre'r Eifl am gyfraniad ariannol dwieddar y Cyngor.

6.3 Nodwyd mai polisi'r Cyngor ydyw i ystyried ceisiadau am gyfraniadau ariannol unwaith y flwyddyn onibai fod brys dybryd gan achosion lleol. Gellir cynnwys cais yr Ambiwlans Awyr a Dawns i Bawb ar y bwrdd hyd y Pwyllgor penodol hwnnw.

7. **Unrhyw Fater Arall**

7.1 **Cyngor Sir - Torri Gwrychoedd** - *Gofynnwyd i'r Cyng. AJ holi sawl gwaith y bydd y Cyngor Sir yn torri'r gwrychoedd yr haf yma.*

7.2 **Cyfrifoldeb am ochr y ffordd** - *Y Clerc i ofyn wrth Un Llais am arweiniad ynglyn a phwy sydd a'r cyfrifoldeb am ochr y ffordd.*

7.3 **Groeslon Pentreuchaf** – Nodwyd fod angen barbio yng Ngroeslon Pentrechaf er diogelwch. *Y Clerc i gysylltu gyda Chyngor Cymuned Llannor cyn cyn symud ymlaen fel y bo'n briodol.*

7.4 **Torri gwellt yn Mynwent Eglwys Pistyll** – Daeth dau amcanbris i law. Un am £280.00 a'r llall am £200.00 gan R Owen, 4 Groesffordd, Chwilog. Penderfynwyd dynodi'r gwaith i R Owen. *Y Clerc i hysbysu'r ymgeisydd llwyddiannus.*

7.5 **Materion gweinyddol ymarferol yn deillio o newidiadau yng ngofynion Rheoleiddwyr** – Awdurdodwyd y Clerc i barhau gyda'r ffrydiau gwaith a adnabuwyd gan eu blaenoriaethu tros y flwyddyn ariannol gyfredol.

7.6 **Presenoldeb ar yn we** – *Y Clerc i gysylltu â Chyngor Cymuned Boduan i weld beth sut y maent yn cyfarfod y gofynion newydd.*

Derbyniadau: Praesept £2750.00

Taliadau: Clwb Godre'r Eifl £300.00
Y Ganolfan £150.00
Mainc Llithfaen £153.00
Balans cyfrif cyfredol : £2993.14Cr

Anfonebau i'w talu
Adnewyddiad Polisi Yswiriant y Cyngor Cymuned - £514.45 – trwy siec i Aon UK limited
Hysbysebiad am Glerc Chwefror 2016 - £9.00 – trwy siec i Gymdeithas Llanw Llŷn.

Cyfarfod nesaf - nos Fawrth, 12fed o Orffennaf am 7:30 y.h.

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347